

RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod Rhithiol o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ddydd Llun, 25 Hydref 2021

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5:00pm dydd Iau, 28 Hydref 2021. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00pm dydd Iau, 4 Tachwedd, 2021. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) ddydd Gwener, 5 Tachwedd, 2021.

Yn bresennol: Y Cynghorwyr Llinos Medi Huws (Cadeirydd), R. Meirion Jones, R G Parry OBE FRAGS, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams, Alun W Mummery, Carwyn Jones a Robin Williams

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr Glyn Haynes, Kenneth Hughes, Trefor Lloyd Hughes, MBE, Aled Morris Jones, Dafydd Roberts

Ymddiheuriadau: Cynghorydd R Dew

(10:00 y.b. - 11:15 y.b.)

RHIF YR EITEM A'R PWNC	3 Cofnodion Amherthnasol
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd cadarnhau fod cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 27 Medi, 2021 yn gywir.
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	Amherthnasol
DATGANIAD O DDIDDORDEB	Amherthnasol
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	Amherthnasol
YMGYNGHORI, OS O GWBL	Amherthnasol
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Amherthnasol

RHIF YR EITEM A'R PWNC	4 Panel Rhiantu Corfforaethol Amherthnasol
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd mabwysiadu cofnodion drafft cyfarfod y Panel Rhiantu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 7 Medi, 2021.

RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	Amherthnasol
DATGANIAD O DDIDDORDEB	Amherthnasol
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	Amherthnasol
YMGYNGHORI, OS O GWBL	Amherthnasol
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Amherthnasol

RHIF YR EITEM A'R PWNC	5 Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd cymeradwyo'r raglen waith wedi'i diweddaru am y cyfnod rhwng Tachwedd, 2021 a Mehefin 2022 fel y'i cyflwynwyd gan nodi fod y Blaen Raglen Waith yn cael ei diweddaru'n fisol a'i chyflwyno fel eitem safonol yn fisol i'r Pwyllgor Gwaith.
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	Cryfhau atebolrwydd a threfniadau cynllunio ymlaen
DATGANIAD O DDIDDORDEB	Dim
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	Dim
YMGYNGHORI, OS O GWBL	Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig.
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Oes

RHIF YR EITEM A'R PWNC	6 Ymgynghoriad ar lefel Premiwm y Dreth Gyngor ar gyfer ail-gartrefi Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/ Swyddog Adran 151
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd – <ul style="list-style-type: none"> Argymhell i'r Cyngor gynyddu'r premiwm ar eiddo sydd wedi'u dodrefnu'n sylweddol ond sydd ddim yn cael eu hystyried yn unig

neu'n brif breswylfa'r trethdalwr (ail gartrefi) i 50% o 1 Ebrill 2022/23.

- Rhoi gwybod yn ffurfiol i'r trethdalwyr – trethdalwyr sy'n gorfod talu'r premiwm - o fwriad y Cyngor i gynyddu'r premiwm i 50%, cyn gynted â phosibl. Fel hyn, bydd modd iddynt wneud trefniadau amgen os nad ydynt yn dymuno talu'r premiwm uwch.
- Bod y Pwyllgor Gwaith yn ailddatgan eu bwriad i:
 - Gynyddu'r premiwm ar eiddo sydd wedi'i ddodrefnu'n sylweddol ond nad yw'n cael ei ystyried yn unig neu'n brif breswylfa'r trethdalwr (ail gartrefi), i 75% o fis Ebrill 2023 a 100% o fis Ebrill 2024;
 - Barhau i roi pwysau ar Lywodraeth Cymru i wneud hynny y gallant i ganiatau'r Cyngor reoli nifer yr ail gartrefi ar yr Ynys;
 - Barhau i ofyn i Lywodraeth Cymru newid y ddeddfwriaeth bresennol er mwyn sicrhau bod perchnogion ail gartrefi yn gwneud cyfraniad treth addas, naill ai drwy'r Dreth Gyngor neu drwy Drethi Busnes.
- Bod cyllid yn cael ei ryddhau o'r incwm ychwanegol a wneir, er mwyn cyflogi dau aelod ychwanegol o staff yn nhîm y Dreth Gyngor o Ionawr 2022 i ymdrin â'r llwyth gwaith cynyddol (apeliadau, adfer ac ati). Bydd y cyllid, hefyd, yn fodd i'r Tîm fod yn fwy rhagweithiol wrth nodi achosion o osgoi treth. Yn seiliedig ar raddfeydd cyflog 2021/22, byddai swm o £65k yn ddigon i dalu cyflogau a'r costau cysylltiedig.
- Bod y Pwyllgor Gwaith yn penderfynu sut i ddefnyddio'r incwm ychwanegol a bod y cynigion yn cael eu cynnwys yn rhan o gynigion cyllideb refeniw

	2022/23, gyda'r mwafrif o'r cyllid ychwanegol yn cael ei gyfeirio at gyllido cynlluniau i helpu pobl leol i brynu cartrefi eu hunain ac i hyrwyddo'r economi leol.
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	Gwneud argymhelliad ar lefel Premiwm Treth y Cyngor ar eiddo a feddiannir o bryd i'w gilydd (ail gartrefi) o 2022/23 ymlaen yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus ar y bwriad i gynyddu'r lefel.
DATGANIAD O DDIDDORDEB	Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid (yn dilyn y cyfarfod)
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	Dim
YMGYNGHORI, OS O GWBL	Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig.
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Oes mewn perthynas â chymalau 2 a 4 yn unig

RHIF YR EITEM A'R PWNC	7 Llythyr Blynyddol yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus 2020/21 Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd nodi a derbyn Llythyr Blynyddol yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer 2020/21 a dirprwyo'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) i ysgrifennu at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru erbyn 15 Tachwedd, 2021 i gadarnhau'r un peth ac i ddatgan y bydd y Cyngor yn parhau i fonitro cwynion a thrwy hynny'n rhoi'r wybodaeth ofynnol i'r Aelodau er mwyn craffu ar berfformiad.
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	I alluogi craffu ar berfformiad y Cyngor yn unol â gofyniad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
DATGANIAD O DDIDDORDEB	Dim
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	Dim
YMGYNGHORI, OS O GWBL	Fel yr amlinellir yn yr adroddiad

	ysgrifenedig.
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Oes

RHIF YR EITEM A'R PWNC	8 Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2020/21 Adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid.
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd argymell i Gyngor Sir Ynys Môn fod Adroddiad Perfformiad 2020/21 yn adlewyrchiad cywir o waith yr Awdurdod dros y cyfnod ac y dylid ei gyhoeddi erbyn y dyddiad cau statudol ar 31 Hydref.
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	Cydymffurfio â'r gofyniad statudol
DATGANIAD O DDIDDORDEB	Dim
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	Dim
YMGYNGHORI, OS O GWBL	Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig.
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Nac oes. Mae'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol i'w gyflwyno i'w gymeradwyo gan y Cyngor Llawn ar 26 Hydref, 2021

EITEM GYFRINACHOL

RHIF YR EITEM A'R PWNC	10 Erlyniad Difrod Ffyrdd Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo)
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd cymeradwyo argymhellion yr adroddiad a symud ymlaen yn unol â hynny.
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	Cadarnhau cam gweithredu mewn cysylltiad ag erlyniad difrod priffyrdd.
DATGANIAD O DDIDDORDEB	Dim
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	Dim
YMGYNGHORI, OS O GWBL	Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig.
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Oes

EITEM GYFRINACHOL

RHIF YR EITEM A'R PWNC	12 Datblygiad tai dros 10 uned – Tir ger Stad Ddiwydiannol Pentraeth. Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Tai
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd cymeradwyo bwrw ymlaen i ddatblygu tai cyngor newydd o 10 uned ar dir ger Ystâd Ddiwydiannol Pentraeth.
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	Cymeradwyo datblygu tai cyngor newydd ar dir ger Ystâd Ddiwydiannol Pentraeth
DATGANIAD O DDIDDORDEB	Dim
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	Dim
YMGYNGHORI, OS O GWBL	Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig.
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Oes